



AwtistiaethCymru.org

Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol
National Autism Team

AutismWales.org

Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol/ AwtistiaethCymru.org

Taflen adnoddau





Pwy yw'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol?

Mae'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu i wella bywydau pobl awtistig a'u teuluoedd ledled Cymru. Rydym yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd - drwy gydgyhyrchu hyfforddiant ac adnoddau, rhannu arferion a hyrwyddo anghenion pobl awtistig pryd bynnag y bo modd. Mae ein gwefan, awtistiaethcymru.org, yn rhan allweddol o'n cynnig. Mae'r llyfryn adnoddau hwn yn amlinellu'r adnoddau sydd gennym ar ein gwefan.

Adnoddau hyfforddi cyffredinol:

Fframwaith hyfforddi:

Mewn ymateb i ymholiadau niferus am gynnwys yr hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gydag unigolion Awtistig, rydym wedi datblygu fframwaith hyfforddiant i helpu comisiynwyr i gynllunio a rhoi hyfforddiant ar waith. Yn seiliedig ar Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth NHS Education for Scotland, Optimising Outcomes, (Tachwedd, 2014) rydym yn gobeithio y bydd hyn yn helpu i gefnogi cysondeb hyfforddiant led led Cymru.

<https://autismwales.org/wp-content/uploads/2022/04/Fframwaith-Hyfforddiant-Awtistiaeth-Cenedlaethol-2022.pdf>

Dogfen Proffil Swydd a Thasgau:

Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â'r Fframwaith Hyfforddi ac yn nodi proffiliau swyddi posibl a dyletswyddau sy'n cyfateb i bob lefel o'r fframwaith.

https://autismwales.org/wp-content/uploads/2022/05/Job-profile-and-tasks-for-the-Autism-training-framework_cy.pdf



Modiwlau e-ddysgu:

Yn yr adran hon mae set o fodiwlau eDdysgu strwythuredig sy'n dilyn Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth Cenedlaethol Cymru. Mae'r holl fodiwlau e-ddysgu yn cael eu cynhyrchu ar y cyd â grŵp cyngori o bobl awtistig a gweithwyr proffesiynol. Os ydych chi'n cael eich cyflogi gan Awdurdod Lleol neu Fwrdd Iechyd, mae'r modiwlau hyn ar gael ar eich platfform dysgu eich hun neu ESR, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cwblhau'r modiwlau ar eich platfform dysgu, nid ein gwefan. Mae'r ddau fodiwl hyn wedi'u hachredu gan DPP a byddant yn cyfrif tuag at eich oriau DPP.

Modiwlau cyfredol ar gael:

Deall Awtistiaeth - cyflwyniad i beth yw awtistiaeth, sut mae'n effeithio ar fywyd o ddydd i ddydd pobl awtistig, a chynghor ar bethau y gallwch chi eu gwneud i ddeall awtistiaeth yn well.

Awtistiaeth a Deall Sut i Gyfathrebu'n Effeithiol - yn darparu dealltwriaeth o wahaniaethau cyfathrebu, dealltwriaeth o effaith ffactorau amgylcheddol ar gyfathrebu a dealltwriaeth o ffyrdd effeithiol o gyfathrebu.

<https://autismwales.org/cy/adnoddau/dysgu-electronig/>

Adnoddau i rieni/gofalwyr:

Fideo Rhiant/Gofalwr ASDinfo Cymru:

Mae'r ffilm hon wedi'i hanelu at rieni a gofalwyr sydd â phlentyn awtistig. Mae'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys trafodaethau gyda rhieni/gofalwyr, pobl awtistig a gweithwyr proffesiynol. Mae hyd y ffilm tua 45 munud.

<https://autismwales.org/cy/rhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr/teledu-asdinfowales-ffilm-i-rieni-a-gofalwyr/>

Fideos rhiant/gofalwr:

Cyfres o ffilmiau sy'n darparu gwybodaeth a chynghor megis; cyfathrebu, ymdopi â newid, cynllunio ac ymweld â gweithwyr iechyd proffesiynol.

<https://autismwales.org/cy/rhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-i-rieni-a-gofalwyr/fideos-asd-ar-gyfer-rhieni-a-gofalwyr/>






Taflenni cyngor:

Mae gennym amrywiaeth o daflenni cyngor ar faterion penodol, gan gynnwys problemau cysgu a phryder.

<https://autismwales.org/cy/news/gwybodaeth-ddiweddaraf-y-coronafeirws-covid-19-2/>

Adnoddau i blant:

Cardiau lluniau ac amserlenni:



Gall y cardiau lluniau hyn helpu i greu strwythur ar gyfer gweithgareddau dydd i ddydd eich plentyn.

<https://autismwales.org/cy/rhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-ar-gyfer-plentyn-awtistig/cardiau-lluniau-plant/>

Proffil Personol Plentyn:

Gall y proffil helpu pobl i gael gwell dealltwriaeth o'ch plentyn a sut y gallant ei helpu a'i gefnogi'n fwy effeithiol.

<https://autismwales.org/cy/rhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-ar-gyfer-plentyn-awtistig/proffil-personol-plentyn/>

Teifi a'i Ffrindiau:

Mae'r ffilm fer animeiddiedig hon wedi'i datblygu i ddangos i blant ifanc sut i fod yn garedig ac i dderbyn tuag at gyfoedion ag anghenion ychwanegol.

<https://autismwales.org/cy/rhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-i-frodyr-a-chwirydd/teifi-a-ffrindiau/>

Archarwyr Awtistiaeth:



Mae dau lyfr Archarwyr Awtistiaeth, llyfr comic a llyfr stori. Mae'r llyfrau hyn wedi'u creu ar gyfer plant i helpu i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o awtistiaeth.

<https://autismwales.org/cy/rhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-i-frodyr-a-chwirydd/archarwyr-awtistiaeth/>





Sgilti:

Mae ein fideo a'n gwrs Sgilti, a ddyluniwyd ar gyfer myfyrwyr ysgol uwchradd, yn dangos rhai o'r heriau y mae pobl ifanc awtistig yn eu hwynebu yn ystod diwrnod ysgol arferol.

<https://autismwales.org/cy/rhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-i-frodyr-a-chwirydd/gwers-sgilti-ac-addewid-disgyblion/>


Adnoddau ar gyfer oedolion a phobl ifanc:

Fideos Archwilio Cyflogaeth:

Mae'r adran hon yn cynnwys recordiadau o'r holl weithdai o'n digwyddiad cyflogaeth rhithwir a gyd-gynhyrchwyd o'r enw 'Archwilio Cyflogaeth: Sut i ddod o hyd i'r swydd neu'r yrfa sy'n iawn i chi a'i chadw'. Mae'r digwyddiad ar gyfer pobl awtistig o oedran gweithio.

<https://autismwales.org/cy/amdanom-ni/archwilio-cyflogaeth/>

'Llyfryn Adnoddau Archwilio Cyflogaeth:



Mae'r llyfryn adnoddau cyflogaeth hwn ar gyfer pobl awtistig yn darparu gwybodaeth ymarferol ac yn cyfeirio at adnoddau cyflogaeth defnyddiol, gan gwmpasu pynciau fel cyfweiliadau, hawliau cyflogaeth, lles, adnabod sgiliau a chyfathrebu'ch anghenion.

<https://autismwales.org/wp-content/uploads/2022/02/ArchwilioCyflogaethResourceBooklet.pdf>

Fideo 'Beth yw Awtistiaeth?':

Mae'r ffilm hon yn dilyn tri pherson awtistig - Amara Tamblin, Rhiannon Lloyd-Williams ac Osian Harries - wrth iddynt archwilio'r hyn y mae eu hawtistiaeth yn ei olygu iddyn nhw, gan gynnwys: cyfathrebu cymdeithasol, patrymau ac arferion, profiad synhwyraidd, a sut i wella pethau. Mae hefyd yn cynnwys llais proffesiynol Dr Elin Walker Jones, Seicolegydd Ymgynghorol.

<https://autismwales.org/cy/rwyn-awtistig/beth-yw-awtistiaeth/>





Proffil Personol Oedolyn:

Gall y proffil helpu pobl i gael gwell dealltwriaeth ohonoch chi a sut y gallant eich helpu a'ch cefnogi'n fwy effeithiol.

<https://autismwales.org/cy/rwyn-awtistig/adnoddau-i-chi/proffil-personol-oedolion/>

Waled oren:

Nod y cynllun waled oren yw helpu pobl awtistig wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

<https://autismwales.org/cy/rwyn-awtistig/adnoddau-i-chi/cynllun-waled-oren/>

Geirfa idiomau:

Mae'r eirfa hon yn rhoi ystyr i idiomau amrywiol.

<https://autismwales.org/cy/rwyn-awtistig/adnoddau-i-chi/geirfa-idiomau/>

Adnoddau Cynhadledd Lles Awtistig:

Cyflwyniadau ar amrywiaeth o bynciau gan gynnwys: creadigrwydd, ysgogi, bwyta anhrefnus, perthnasoedd, heneiddio, alcohol a gweithrediad gweithredol.

<https://autismwales.org/cy/amdanom-ni/hyrwyddo-lles-awtistig-cynhadledd-awtistiaeth-genedlaethol-cymru-2019/>

Adeiladwr Sgiliau Personol:

Creu eich rhestr sgiliau personol i'ch cynorthwyo i chwilio am swydd.

<https://autismwales.org/cy/rwyn-awtistig/cyflogaeth/adeiladwr-sgiliau-personol/>

Adeiladwr CV:

Crëwch eich CV eich hun yma y gallwch ei gadw a'i lawrlwytho unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

<https://autismwales.org/cy/rwyn-awtistig/cyflogaeth/adeiladwr-cv/>

Offeryn 'Chwilio am Waith':

Llyfr gwaith ymarferol i'ch cynorthwyo i chwilio am swydd.

<https://autismwales.org/cy/rwyn-awtistig/cyflogaeth/offeryn-chwilio-am-waith/>

Podlediad 'Cod Ymarfer ar gyfer Cyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth':

Podlediad gydag Autistic UK sy'n archwilio effeithiau'r Cod Ymarfer ar bobl awtistig a'u teuluoedd.

<https://autismwales.org/cy/adnoddau/fideos/podlediad-y-cod-ymarfer-awtistiaeth/>



Adnoddau ar gyfer addysg:

Blynyddoedd Cynnar:

Mae'r adnoddau hyn wedi'u hanelu at gynyddu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o awtistiaeth ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn lleoliad blynyddoedd cynnar. Mae'r adnoddau'n cynnwys fideos hyfforddi, astudiaethau achos, llawlyfr ac offeryn hunanwerthuso i staff a fideo animeiddiedig Teifi, cardiau awgrym a chardiau lluniau i blant ifanc.

<https://autismwales.org/cy/addysg/rwyn-gweithio-mewn-lleoliad-blynyddoedd-cynnar/>

Ysgol Gynradd:

Mae'r adnoddau hyn wedi'u hanelu at gynyddu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o awtistiaeth ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn ysgol gynradd. Mae adnoddau'n cynnwys fideos hyfforddi, llawlyfr ac offeryn hunanwerthuso ar gyfer staff a llyfrau Archarwyr Awtistiaeth i blant.

<https://autismwales.org/cy/addysg/rwyn-gweithio-mewn-ysgol-gynradd/>

Ysgol Uwchradd:

Mae'r adnoddau hyn wedi'u hanelu at gynyddu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o awtistiaeth ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn ysgol uwchradd. Mae adnoddau'n cynnwys fideos hyfforddi, offeryn hunanarfarnu a llawlyfr i staff a gwers 'Sgilti' i gefnogi dysgwyr i ddeall awtistiaeth.

<https://autismwales.org/cy/addysg/rwyn-gweithio-mewn-ysgol-uwchradd/>

Addysg Bellach (AB):

Mae ffilm a thaflen gyngor yn rhoi gwybodaeth i diwtoriaid a staff addysgu sy'n cefnogi myfyrwyr AB awtistig. Mae'r ffilm yn cynnwys myfyrwyr AB awtistig yn siarad am eu profiad o'r coleg ac mae canllaw i fyfyrwyr hefyd ar gael.

<https://autismwales.org/cy/addysg/rwyn-gweithio-mewn-sefydliad-addysg-bellach/>

Dysgu Seiliedig ar Waith:

Ffilm a chanllaw ysgrifenedig ar gyfer y rhai sy'n cefnogi pobl awtistig mewn lleoliadau Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae canllaw ysgrifenedig hefyd ar gael i bobl awtistig mewn lleoliadau Dysgu Seiliedig ar Waith.

<https://autismwales.org/cy/addysg/rwyn-ddarparwr-dysgu-yn-y-gwaith/>



Adnoddau i gyflogwyr:

Gweminarau i gyflogwyr:

Mae'r adran hon yn cynnwys recordiadau o weithdai o'n gweminar symposiwm cyflogaeth rhithwir. Mae'r symposiwm wedi'i anelu at gyflogwyr, darparwyr cyflogaeth â chymorth, a staff cyflogaeth allweddol. Mae'n ymdrin â phynciau fel addasiadau rhesymol, cyflogaeth â chymorth ac arfer gorau mewn lleoliadau gweithle.

<https://autismwales.org/cy/amdanom-ni/symposiwm-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-awtistiaeth-ac-ymlyniad-gorgyffwrdd/>

Canllaw 'Cyflogi person awtistig':

Mae'r adnoddau hyn yn cynnig cyngor ac arweiniad i gyflogwyr ar y ffordd orau o gefnogi gweithwyr awtistig yn y gweithle. Mae adnoddau'n cynnwys taflenni cyngor, canllaw Undeb Llafur a llyfr gwaith y gellir ei gwblhau gyda'r gweithiwr i nodi pa gymorth sydd ei angen.

<https://autismwales.org/cy/cyflogaeth/rydw-in-gyflogwr/ydych-chin-gadarnhaol-ynglyn-a-gweithio-gydag-awtistiaeth/>

Adnoddau ar gyfer staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Pecyn Cymorth CAMHS:

Datblygwyd y Pecyn Cymorth Adnoddau hwn ar gyfer yr holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn CAMHS Arbenigol. Mae'r un mor berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc niwroamrywiol a'u teuluoedd ym maes iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, o ran helpu i ddeall, esbonio a chefnogi llesiant a chanlyniadau ymarferol.

<https://autismwales.org/cy/gwasanaethau-cymunedol/rwyn-gweithio-gyda-phlant-ym-maes-iechyd-a-gofal-cymdeithasol/pecyn-adnoddau-canllaw-cyflym-camhs/>

Sesiynau Cymuned Ymarfer:

Yn yr adran hon, fe welwch amrywiaeth o recordiadau o'n digwyddiadau Cymuned Ymarfer, sy'n cynnig y cyfle i weithwyr proffesiynol rannu arfer da a chaniatáu i eraill gael mwy o wybodaeth am roi ymchwil ar waith a chymorth gan gymheiriaid. Bydd yr adran hon yn cael ei diweddarau'n rheolaidd pan gynhelir y digwyddiadau hyn.

<https://autismwales.org/cy/adnoddau/fideos/sesiynau-cymuned-ymarfer/>



Cyflwyniadau digwyddiadau Awtistiaeth ac Ymlyniad:

Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o ymlyniad ac awtistiaeth a sut y gallant gyflwyno mewn ffyrdd tebyg, gan helpu i wella ymarfer i ddiwallu anghenion emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc awtistig yn well.

<https://autismwales.org/cy/amdanom-ni/symposiwm-iechyd-a-gofal-cymdeithasol-awtistiaeth-ac-ymlyniad-gorgyffwrdd/>

Adnoddau ar gyfer gwasanaethau cymunedol:

Canllaw Tai:

Mae gennym ganllaw cynhwysfawr ar gyfer staff tai sy'n seiliedig ar arfer da a'r Ddeddf Tai, i helpu staff i ddeall yn well anghenion pobl awtistig sy'n defnyddio gwasanaethau tai.

<https://autismwales.org/cy/gwasanaethau-cymunedol/rwyn-gweithio-ym-maes-tai/cynllun-hyfforddi-ardystiedig-tai/>

Gwasanaethau Brys:


Mae'r adnoddau yn yr adran hon wedi'u hanelu at gynyddu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth o awtistiaeth ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau brys. Ymhlith yr adnoddau mae ffilm hyfforddi Gwasanaethau Brys a thaflen gyngor.

<https://autismwales.org/cy/gwasanaethau-cymunedol/rwyn-gweithio-yn-y-gwasanaethau-brys/ffilm-hyfforddir-gwasanaethau-brys/>

Chwaraeon a Hamdden:

Mae gennym Gynllun Ardystio Hamdden, sy'n darparu hyfforddiant i staff hamdden ar anghenion pobl awtistig a sut i greu amgylchedd cyfforddus i bobl awtistig.

<https://autismwales.org/cy/gwasanaethau-cymunedol/rwyn-gweithio-ym-maes-hamdden-a-chwaraeon/cynllun-hyfforddi-ardystio-hamdden/>





Astudiaethau achos:

Casgliad o Astudiaethau Achos:

Mae ein Casgliad Astudiaeth Achos arfer gorau yn arddangos yr ystod o waith effeithiol sy'n cael ei wneud ledled Cymru gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes awtistiaeth. Mae pob astudiaeth achos yn cynnwys lleisiau pobl awtistig a/neu riant/gofalwyr pobl awtistig, gan fyfyrio ar sut mae'r cymorth a'r ymyriadau a roddwyd ar waith wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau.

<https://autismwales.org/cy/adnoddau/astudiaethau-achos/>

Straeon Digidol:

Mae'r gyfres Straeon Digidol yn cynnwys cyfweiliadau â phobl yn y gymuned awtistig, ac yn gofyn beth hoffent i rieni/gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, a'r cyhoedd yn gyffredinol ei wybod am awtistiaeth.

<https://autismwales.org/cy/adnoddau/fideos/straeon-digidol/>

Ein manylion cyswllt:



awtistiaethcymru@wlga.gov.uk



@AwtistiaethCymru



07469 485 643



@AwtistiaethCymru